# Trawsgrifiad lawrlwytho ffurflenni cleifion -Orbit 360 (Cymraeg)

00:00 Sut i lawrlwytho ffurflenni cleifion Orbit360

00:08 Sut fyddai'n derbyn yr holiaduron cleifion?
Unwaith y bydd eich cais i gael adborth gan gleifion yn cael ei gymeradwyo, bydd rhaid i chi lawrlwytho eich ffurflenni adborth cleifion o Orbit360.
Gallwch lawrlwytho'r arolygon mewn codau Cymraeg, Saesneg neu ar-lein. Dylech arbed y ffeil neu argraffu'r ffeil wedi'i lawrlwytho ar unwaith. Sicrhewch eich bod hefyd yn lawrlwytho'r Arweiniad i Gleifion y dylai cleifion eu darllen cyn llenwi'r arolwg.
Lle bo modd, bydd angen i chi enwebu Gweinyddwr Arolygon Lleol (LSA) i helpu i ddosbarthu'r ffurflenni cleifion. Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau efallai y bydd angen i'r meddygon fynd a dosbarthu'r arolygon eu hunain ar ddiwedd yr ymgynghoriad.
Sylwch: dim ond ffurflenni sydd wedi'u lawrlwytho o Orbit360 y gallwn eu derbyn.
Nid oes sain ar y fideo hon.

00:51 Rydym yn dilyn canllawiau'r GMC i bennu nifer yr ymatebion sydd eu hangen i gynhyrchu adroddiad *ystyrlon*. Bydd angen i chi gasglu o leiaf 20 o ymatebion gan gleifion ar gyfer yr ymarfer adborth ffurfiol hwn.
Mae'r GMC yn cynghori y dylid dosbarthu eich ffurflenni i gleifion yn olynol (lle bo'n bosibl) gyda'r gobaith o gael 20 ymateb i gwrdd â'r trothwy.
Bydd y fideo byr hwn yn dangos i chi sut i lawrlwytho ffurflenni adborth cleifion ar ôl cychwyn eich adborth. Rydym yn defnyddio Google Chrome yn y fideo hwn.

01:22 Dewiswch 'Rheoli Adborth'.

01:39 Gallwch lawrlwytho eich casgliad cyntaf o 30 ffurflen.

01:44 Mae gan bob ffurflen god unigryw y gall y defnyddiwr ei adnabod felly ni ddylid ei ddefnyddio fwy nag unwaith.
Lle bo modd, dylai eich Gweinyddwr Arolygon Lleol (LSA) hwyluso'r broses hon.

02:04 Mae ffurflenni cleifion ar gael yn Gymraeg, Saesneg neu gasgliad o godau ar-lein.

02:10 Yn y senario hwn rwyf wedi dewis lawrlwytho swp o ffurflenni Saesneg.

02:29 Ar ôl ei lawrlwytho, arbedwch i'ch dyfais neu argraffwch y ddogfen ar unwaith.

02:45 Gellir argraffu a chwblhau pob ffurflen. Fel arall, gall y claf ddefnyddio'r cod QR neu gyfeiriad gwe'r arolwg a mewnbynnu'r Cod Mynediad unigryw i gwblhau'r arolwg ar-lein.

02:59 Gallwch greu ffurflenni ychwanegol trwy fewnbynnu nifer y ffurflenni yr ydych yn eu dymuno a chlicio ar '+Cynhyrchu'.
Sylwch: Gallwch gynhyrchu cymaint o ffurflenni ag y dymunwch, ni fydd hyn yn effeithio ar eich cynnydd.

03:28 Yn y senario hwn rwyf wedi dewis 'Dim ond Codau'.
Os dewiswch yr opsiwn hwn bydd yn lawrlwytho PDF gyda rhestr o godau unigryw i'r claf eu defnyddio'n electronig. Gallwch anfon neges destun neu e-bostio cyfeiriad gwe'r arolwg a'r cod unigryw at y claf fel nad oes angen ffurflen bapur.

03:46 Sylwer: os rhoddir cod mynediad ar-lein i glaf, byddai angen cael gwared ar y ffurflen gyfatebol.

04:02 Ar ôl ei lawrlwytho, arbedwch i'ch dyfais neu argraffwch y ddogfen ar unwaith.

04:15 Bydd angen i chi hefyd lawrlwytho'r canllawiau ategol i'w dosbarthu i gleifion gyda'r arolwg.

04:34 Pethau i'w cofio:

- Sicrhewch fod pob claf yn cael cod/ffurflen unigryw. Dim ond unwaith y gellir defnyddio'r codau ac ni fydd Orbit360 yn uwchlwytho adborth lluosog yn erbyn yr un cod.
- Mae angen 20 ymateb adborth cleifion arnoch i gyrraedd y trothwy.
- Os ydych yn dychwelyd y ffurflenni adborth trwy e-bost, a fyddech cystal â choladu'r ffurflenni adborth cleifion a'u dychwelyd atom mewn un swp unwaith y bydd digon o ffurflenni wedi'u cwblhau.

Sicrhewch os gwelwch yn dda:

Nid ydych yn anfon ffurflenni gyda styffylau

Lle bo modd, mae'r ffurflenni'n ddwy ochr ac mae'r ffeiliau yn ddogfennau PDF.

Mae’r sganiau’n glir ac mae’r ffurflen lawn i’w gweld yn y llun (rhaid i’r holl godau QR fod yn syth ac yn weladwy i sicrhau bod y meddalwedd darllen ffurflenni yn gallu dyrannu’r ffurflenni’n gywir).

Os ydych yn postio'r ffurflenni yn ôl, gwnewch gopi o'r ffurflenni cyn eu hanfon.

05:24 Gallwch ddychwelyd y ffurflenni claf drwy'r post i; Revalidation Support Unit - Orbit360, Ty Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, CF15 7QQ neu drwy e-bost at; HEIW.Orbit360@wales.nhs.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Thîm Orbit360: HEIW.Orbit360@wales.nhs.uk

Wedi'i greu gan yr Uned Cymorth Ailddilysu, Addysg Iechyd a Gwella Cymru.